OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2633 (Cy.216)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*29 Medi 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*1 Hydref 2009*
Yn dod i rym - -	*23 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) i'r Ysgrifennydd Gwladol ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) (Diwygio) 2009 a daw i rym ar 23 Hydref 2009.

Diwygio Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) 2009

2. Yn nhestun Cymraeg Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) 2009(**3**) ym mharagraff 2 o Ran 1 o'r Atodlen hepgorer y geiriau "ymyl du a chroeslinellau" a rhodder yn eu lle y geiriau "ymyl du a llinellau lletraws".

(**1**) 1992 p.13. Diwygiwyd adran 27 gan baragraff 16 o Atodlen 1 i Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 (O.S. 2005/3238) a chan baragraff 8 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 2007 (p.25).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2009/1841 (Cy.167).